CANLLAWIAU

Canllawiau ar gyfer cyrff dyfarnu ar gamymddwyn a chamweinyddu

Canllawiau ar gyfer cyrff dyfarnu ar gamymddwyn a chamweinyddu

Cefndir

Rydym yn gyfrifol am reoleiddio cymwysterau a'r system gymwysterau yng Nghymru.

Rydym yn rheoleiddio'r cyrff dyfarnu sy'n cael eu cydnabod gennym i ddatblygu, cyflwyno a dyfarnu cymwysterau i ddysgwyr yng Nghymru. Mae pob corff dyfarnu cydnabyddedig yn ddarostyngedig i'n rheolau, gan gynnwys y rhai a nodir yn yr Amodau Cydnabod Safonol.

Cynhaliwyd adolygiad gennym o'r Amodau Cydnabod Safonol yn 2019-20 a chyhoeddwyd Amodau diwygiedig a ddaeth i rym ar 1 Hydref 2020. Yn ystod yr adolygiad dywedodd cyrff dyfarnu wrthym y byddai canllawiau'n ddefnyddiol er mwyn cefnogi eu cydymffurfiad parhaus â'r Amodau.

Felly, pwrpas y ddogfen hon yw cefnogi cyrff dyfarnu i gydymffurfio. Ni fwriedir i hyn fod yn rhagnodol ac yn y modd hwn, cyfrifoldeb y corff dyfarnu yw penderfynu sut i gydymffurfio â'i Amodau Cydnabod.

Hanes y Fersiwn

Cyhoeddwyd y canllaw hwn ym mis Mehefin 2021.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau neu adborth ar y ddogfen ganllaw hon, anfonwch e-bost os gwelwch yn dda i'r Tîm Polisi Rheoleiddio yn policy@qualificationswales.org.

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg.

Contents

1. Rhagarweiniad 4
2. Beth yw camymddwyn a chamweinyddu? 4
3. Atal camymddwyn a chamweinyddu 6
Nodi risgiau 6
Cymryd camau i atal camymddwyn a chamweinyddu 7
4. Ymchwilio a rheoli camymddwyn a chamweinyddu 8
Sail resymol dros amheuaeth neu honiad 8
Effeithiau Andwyol 9
Hysbysu Cymwysterau Cymru 10
Ymchwiliadau 11
Trefniadau canolfannau/trydydd parti ac arweiniad ar gyfer canolfannau 14
5. Delio â chamymddwyn a chamweinyddu profedig 15
Cymryd camau yn erbyn y rhai sy'n gyfrifol 15
Hysbysu trydydd parti 16
Atal ailddigwyddiad 16
6. Apeliadau 17
7. Cadw cofnodion 18
Atodiad 1 - Amod A8 a diffiniad o 'Effaith Andwyol' 19
Atodiad 2 - Diagram llif camymddwyn a chamweinyddu 21

1. Rhagarweiniad

1.1 Ffocws y canllaw hwn yw Amod A8, sy'n nodi ein gofynion ar gyfer atal, ymchwilio, ac ymdrin â Chamymddwyn a Chamweinyddu mewn perthynas â chynllunio, cyflwyno a/neu ddyfarnu eich cymwysterau. Mae Amod A8 wedi'i gynnwys yn llawn yn Atodiad 1.

1.2 Mae amodau eraill hefyd yn berthnasol i Gamymddwyn a Chamweinyddu ac ymdrinnir â hwy yn y canllawiau. Er enghraifft, mae Amodau A6, A7 a B3 yn cynnwys gofynion cysylltiedig ynghylch nodi a rheoli risgiau, rheoli digwyddiadau a rhoi gwybod i ni, yn y drefn honno.

1.3 Pwrpas trosfwaol Amod A8 yw sicrhau eich bod yn rhagweithiol wrth atal camymddwyn a chamweinyddu, a ble mae achos yn codi, wrth leihau unrhyw Effeithiau Andwyol. Pan gymerir mesurau rhagweithiol i nodi ac atal risgiau, yna mae hyn yn fwy tebygol o leihau digwyddiadau neu Effeithiau Niweidiol ohonynt. Pan fyddant yn digwydd, rhaid i gyrff dyfarnu ymchwilio, cymryd camau priodol, a chymryd pob cam rhesymol i osgoi'r digwyddiad rhag digwydd eto.

1.4 Mae Amod A8 yn cydnabod y rhan y mae canolfannau yn ei chwarae wrth ddarparu'ch cymwysterau. Fodd bynnag, mae Amodau A8.4, A8.5 ac C2 wrth eu cyfuno, yn gosod cyfrifoldeb arnoch chi i gymryd pob cam rhesymol i adolygu trefniadau canolfannau, ac i ddarparu arweiniad i ganolfannau ar atal, ymchwilio ac ymdrin â chamymddwyn a chamweinyddu pan ofynnir amdano. Yn y modd hwn rydych yn sicrhau bod canolfannau'n ymddwyn yn cydymffurfio mewn perthynas â chamymddwyn a chamweinyddu, ac mae eich rôl yn hyn yn bwysig iawn.

2. Beth yw camymddwyn a chamweinyddu?

2.1 Mae Amod A8 yn cyfeirio at camymddwyn a chamweinyddu fel ei gilydd. Mae camymddwyn a chamweinyddu yn cwmpasu ystod eang o faterion, o weithredoedd anonest sy'n effeithio ar ddilysrwydd asesiad, fel twyllo, i dorri gofynion rheoleiddio yn anfwriadol, er enghraifft, o ganlyniad i ddiffyg sylw, diffyg profiad, neu arferion sefydliadol gwael.

2.2 Mae gweithredoedd pawb sy'n gysylltiedig â'ch corff dyfarnu yn berthnasol i'r Amod hwn. Er enghraifft, dysgwyr, staff y ganolfan, staff y corff dyfarnu, neu unrhyw unigolion eraill sy'n ymwneud â datblygu, cyflwyno a/neu ddyfarnu eich cymwysterau. Fel y nodir yn Amod J1.5, mae person wedi'i gysylltu â chi

os yw'n ymgymryd neu'n cymryd rhan mewn unrhyw weithgaredd a wneir gan y corff dyfarnu.

2.3 Yn gyffredinol, mae camymddwyn a chamweinyddu yn cyfeirio at unrhyw weithred, neu fethiant i weithredu, a allai beryglu dilysrwydd asesiad, cymhwyster neu dystysgrif, neu niweidio awdurdod, enw da neu hygrededd corff neu ganolfan ddyfarnu, neu achosi rhyw fath arall o niwed cysylltiedig. Gall camymddwyn a chamweinyddu fod yn fwriadol neu'n anfwriadol. Yr ystyriaeth allweddol yw a fu rhyw fath o gamwedd neu gamymddwyn.

2.4 Mae rhai enghreifftiau cyffredinol o gamymddwyn a chamweinyddu yn cynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i:

Camymddwyn a chamweinyddu gan ddysgwyr:

- Torri rheolau arholiad neu asesiad, er enghraifft, dod â deunyddiau anawdurdodedig neu ddyfeisiau anawdurdodedig fel ffonau clyfar neu watshis clyfar i mewn i arholiad, peidio â dilyn y rheolau ar gyfer e-asesu, neu gydweithio'n amhriodol â dysgwyr eraill;
- Llên-ladrad, gan gynnwys copïo gwaith dysgwr arall, copïo deunydd o'r rhyngrwyd heb gyfeirnodi/cydnabod y ffynhonnell, neu wneud datganiadau ffug am awduraeth gwaith;
- Dwyn neu ymyrryd â gwaith dysgwyr eraill;
- Tarfu ar arholiadau neu asesiadau rheoledig.

Camymddwyn a chamweinyddu gan y corff dyfarnu a/neu drydydd parti (e.e. canolfan):

- Methu â darparu goruchwyliaeth arholiad effeithiol;
- Methu â thrafod dogfennau sy'n gysylltiedig ag arholiad neu asesiad yn ddiogel, er enghraifft, trwy ddatgelu cwestiynau cyn arholiad;
- Darparu neu ganiatáu cymorth amhriodol i ddysgwyr yn ystod asesiad dan reolaeth, er enghraifft, darparu awgrymiadau ateb neu ganiatáu cydweithredu;
- Ffugio canlyniadau fel nad ydynt yn adlewyrchu perfformiad gwirioneddol dysgwr;
- Ffugio cofnodion er mwyn hawlio tystysgrifau;
- Oedi y gellir ei osgoi, er enghraifft, wrth gyflwyno sgriptiau ymgeisydd, gwaith cwrs neu ddeunyddiau asesu eraill i'w marcio, neu oedi wrth gymedroli gan arwain at gyhoeddi canlyniadau neu dystysgrifau yn hwyr;

- Camgymeriadau sy'n deillio o ddiffyg sylw neu weithdrefnau diffygiol, er enghraifft, peidio â defnyddio'r dasg asesu gywir neu roi canlyniad anghywir i ddysgwr;
- Cadw cofnodion yn wael, er enghraifft, colli gwaith ymgeiswyr neu fylchau yng nghofnodion cyrhaeddiad dysgwyr;
- Rhoi gwybodaeth gamarweiniol neu annigonol yn anfwriadol, er enghraifft, mewn perthynas â gweithdrefnau arholi neu ofynion tasgau asesu;
- Cyhoeddi tystysgrifau yn dwyllodrus nad ydynt yn adlewyrchu perfformiad gwirioneddol dysgwr;
- Methu â chydymffurfio â rhwymedigaethau statudol neu gyfreithiol.

3. Atal Camymddwyn a Chamweinyddu

Nodi risgiau

3.1 Mae Amod A8.1 yn ei gwneud yn ofynnol i chi nodi'n rhagweithiol risgiau camymddwyn a chamweinyddu mewn perthynas â datblygu, cyflwyno a/neu ddyfarnu eich cymwysterau.

3.2 Mae gosod prosesau effeithiol ar waith, er mwyn nodi risgiau camymddwyn a chamweinyddu, yn gam cyntaf pwysig tuag at atal. Ymhlith y ffactorau yr hoffech eu hystyried o bosib wrth nodi risgiau mae:

- mathau o gamymddwyn a chamweinyddu a allai godi mewn perthynas â phryd rydych chi'n paratoi asesiadau. Er enghraifft, mewn perthynas â chyfrinachedd deunyddiau asesu;
- mathau o gamymddwyn neu gamweinyddu sy'n gysylltiedig â chyflwyno'r asesiadua. Er enghraifft, lle gallai fod cyfleoedd i ddysgwyr ddod ag eitemau gwaharddedig i mewn i asesiad neu gael gafael ar gymorth amhriodol;
- agweddau ar ddylunio a darparu cymwysterau, a'ch prosesau a'ch gweithdrefnau, a allai gynyddu'r tebygolrwydd o gamymddwyn a chamweinyddu. Er enghraifft, a yw eich gweithdrefnau marcio yn ei gwneud hi'n bosibl ffugio marciau;
- a allai gymryd rhan mewn camymddwyn a chamweinyddu. Er enghraifft, ystyriwch risgiau sy'n codi mewn perthynas â dysgwyr, athrawon, aseswyr, swyddogion arholiadau, y rhai sy'n cynhyrchu eich deunyddiau asesu, canolfannau a thrydydd partion eraill;
- y tebygolrwydd y gall camymddwyn neu gamweinyddu ddigwydd. Er enghraifft, risgiau sy'n gysylltiedig â'r budd i'r chymhellion i gwblhau neu ddyfarnu cymwysterau, megis cael trwydded i ymarfer neu weithio mewn

rôl benodol, y tebygolrwydd; canfyddedig o gael eich dal, a'r canlyniadau dilynol;
- yr effaith y byddai digwyddiadau penodol yn debygol o'i chael ar gydymffurfio ag Amodau Cydnabod eraill. Er enghraifft, a fyddai gollwng cwestiwn arholiad yn gofyn am amnewid yr asesiad cyfan, a'r anhawster o wneud hyn;
- unrhyw ddata neu wybodaeth arall y gallwch ei defnyddio o bosibl i helpu i nodi risgiau. Er enghraifft, gallai setiau data sy'n ymwneud â chofnodion, canlyniadau a digwyddiadau yn y gorffennol eich galluogi i nodi patrymau neu ymddygiad anghyffredin. Gall gwybodaeth berthnasol ddod o amrywiol ffynonellau, gan gynnwys chwythu'r chwiban neu gwynion; a
- a yw eich prosesau sicrhau ansawdd yn gadael unrhyw feysydd yn agored i risg. Er enghraifft, lle gallai fod bylchau yn eich prosesau ar gyfer gwirio neu archwilio asesiad.

3.3 Mae'r risgiau'n debygol o fod yn uwch lle mae manteision cymryd rhan mewn camymddwyn a chamweinyddu yn gorbwyso'r canlyniadau neu'r sancsiynau tebygol o wneud hynny.

Cymryd camau i atal Camymddwyn a Chamweinyddu

3.4 Unwaith y bydd risgiau wedi'u nodi, mae Amodau A8.1 ac A6.2 yn ei gwneud yn ofynnol i chi gymryd pob cam rhesymol i'w hatal rhag digwydd.

3.5 Ystyriwch pa brosesau y gallwch eu gosod ar waith i atal digwyddiadau o gamymddwyn a chamweinyddu rhag digwydd. Er enghraifft, ystyriwch yr hyn sydd wedi'i gynnwys yn eich polisïau a'ch gweithdrefnau, yn ogystal â hyfforddiant i staff a'ch canolfannau a'r hyn sydd wedi'i gynnwys yn eich trefniadau gyda thrydydd partïon. Ystyriwch sut mae eich gweithdrefnau'n goruchwylio'ch canolfannau gan gynnwys y rhai sy'n atal neu'n rheoli risgiau camymddwyn a chamweinyddu, gan gynnwys trwy'ch Strategaeth Craffu Asesu Canolfannau a'ch prosesau sicrhau ansawdd. Ystyriwch eich trefniadau gyda chyflenwyr (megis TG, storio a dosbarthu data) i atal neu leihau'r risg o gamymddwyn a chamweinyddu.

3.6 Mae enghreifftiau o ddulliau ataliol yn cynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i:

- gosod rheolau a gweithdrefnau ar waith er mwyn mynd i'r afael â risgiau penodol a nodwyd gennych. Er enghraifft, mewn perthynas â chyfrinachedd deunyddiau asesu a chynnal asesiadau;
- darparu gwybodaeth a hyfforddiant ar reolau, gweithdrefnau a chanlyniadau camymddwyn a chamweinyddu i'ch staff, dysgwyr, canolfannau, athrawon a defnyddwyr eraill eich cymwysterau; a

- cynllunio camymddwyn a chamweinyddu, cyn belled ag y bo modd, o'ch cymwysterau a'ch prosesau mewnol, er enghraifft, trwy gael gwared ar gyfleoedd i gymryd rhan mewn camymddwyn a chamweinyddu.

3.7 Mae'r Amodau'n ei gwneud yn ofynnol i chi sicrhau ymddygiad priodol gan ganolfannau a thrydydd parti eraill mewn perthynas â chamymddwyn a chamweinyddu trwy drefniadau cytundebol/trydydd parti priodol, a thrwy gynnal gwiriadau canolfannau rheolaidd fel sy'n ofynnol gan Amod A8.4 (trafodir ymhellach yn adran 4). Gellir cefnogi'r mesurau hyn trwy ddarparu hyfforddiant a gwybodaeth am gamymddwyn a chamweinyddu i ganolfannau a thrydydd parti eraill sy'n ymwneud â datblygu, cyflwyno neu ddyfarnu eich cymwysterau, i gefnogi diwylliant o nodi, atal ac adrodd ar risg.

3.8 Mae monitro yn ymarfer pwysig i nodi a rheoli risgiau. Er enghraifft, efallai y gallech brofi effeithiolrwydd eich prosesau ar gyfer atal camymddwyn a chamweinyddu trwy fonitro a samplu meysydd risg uchel, megis cymwysterau neu ganolfannau lle mae hanes o gamymddwyn a chamweinyddu; craffu ar ddeunyddiau asesu yn rheolaidd er mwyn canfod camymddwyn a chamweinyddu posibl; a defnyddio data, adborth ac archwiliadau mewnol i werthuso'ch prosesau.

3.9 Yn ogystal â'r uchod, dysgwch o brofiad blaenorol a defnyddiwch y gwersi rydych chi wedi'u dysgu i lywio dadansoddi risg parhaus a diweddaru'ch polisïau a'ch prosesau ar gyfer atal camymddwyn a chamweinyddu i'r dyfodol.

4. Ymchwilio a rheoli camymddwyn a chamweinyddu

Sail resymol dros amheuaeth neu honiad

4.1 Pan ddaw amheuaeth neu honiad i'r amlwg gyntaf, dylech geisio sicrhau tystiolaeth berthnasol yn brydlon, er mwyn cadarnhau a oes sail resymol dros yr amheuaeth neu'r honiad.

4.2 Wrth benderfynu a oes sail resymol dros amheuaeth neu honiad o gamymddwyn neu chamweinyddu, efallai yr hoffech ystyried ffactorau fel y canlynol:

- ffynhonnell yr honiad neu'r amheuaeth;
- yn achos honiad, p'un ai a yw wedi'i wneud yn ddienw;
- natur y wybodaeth gychwynnol a ddarparwyd, ac a oes gwybodaeth arall a allai wrthdaro â hi neu leihau ei hygredded;

- p'un ai a oes gennych unrhyw gofnodion o ddigwyddiadau, amheuon neu honiadau o gamymddwyn a chamweinyddu perthnasol blaenorol, gan gynnwys digwyddiadau mewn cyrff dyfarnu eraill; a
- a fu cryn dipyn o amser rhwng yr honiad neu'r amheuaeth yn dod i'ch sylw ac amser y digwyddiad.

Effeithiau Andwyol

4.3 Pan fydd seiliau rhesymol dros amheuaeth neu honiad yn codi, ar yr adeg hon mae'n rhaid i chi ystyried ar unwaith a oes angen i chi gymryd unrhyw gamau i osgoi neu liniaru Effeithiau Andwyol. Mae hyn yn ofynnol gan Amodau A7.1 (a) ac A8.2 (b). Mae'r naill a'r llall yn mynnu, lle mae digwyddiad o gamymddwyn neu gamweinyddu wedi cael Effaith Andwyol neu'n gallu arwain at un, rhaid i chi gymryd pob cam rhesymol ar unwaith i atal neu liniaru'r Effaith Andwyol cyn belled ag y bo modd a'i gywiro.

4.4 Mae'r diffiniad o 'Effaith Andwyol' i'w weld yn Adran J yr Amodau, ac mae wedi'i gynnwys yn Atodiad 1. At hyn, dyma rai awgrymiadau ar gyfer materion a allai arwain at Effaith Andwyol, ond nid ydynt yn gynhwysfawr o bell ffordd gan y bydd pob cyd-destun yn wahanol:

a) gallai unrhyw gamymddwyn neu gamweinyddu gan staff mewn canolfan gael Effaith Andwyol ar ddysgwyr;
b) gallai unrhyw ddigwyddiad sy'n eich arwain at annilysu un neu fwy o ddyfarniadau i ddysgwyr gael Effaith Andwyol ar ddysgwyr;
c) lle cafwyd camymddwyn neu gamweinyddu y tu allan i Gymru, ystyriwch a allai hyn roi dysgwyr sy'n cwblhau'r un asesiad yng Nghymru dan anfantais;
d) lle nad yw camymddwyn neu gamweinyddu y tu allan i Gymru yn effeithio'n uniongyrchol ar ddysgwyr yng Nghymru, ystyriwch a all serch hynny beri risgiau i hyder y cyhoedd mewn cymwysterau a gynigir yng Nghymru neu'r system gymwysterau yng Nghymru;
e) wrth benderfynu a yw hyder y cyhoedd mewn cymwysterau neu system gymwysterau Cymru yn cael ei effeithio'n andwyol, gallai rhai enghreifftiau o faterion i'w hystyried gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, raddfa a difrifoldeb y digwyddiad, a maint y dyfarniadau yng Nghymru.

4.5 Unwaith y byddwch wedi nodi bod digwyddiad wedi cael Effaith Andwyol neu y gallai arwain at un, y cam nesaf yw ystyried pa fesurau y dylid eu cymryd i atal neu liniaru a chywiro'r Effaith Andwyol. Mae angen sicrhau cydbwysedd priodol rhwng eich holl ofynion rheoliadol wrth benderfynu ar fesurau priodol. Gall y pwyntiau canlynol fod yn ddefnyddiol wrth ystyried pa fesurau i'w cymryd:

- defnydd arfaethedig y cymhwyster. Er enghraifft, p'un ai a yw'n ofynnol ar gyfer symud ymlaen i astudiaeth bellach neu drwydded i ymarfer. Gellir cydbwyso'r effaith ar ddysgwr pe na bai'n gally symud ymlaen tra bod ymchwiliad yn parhau yn erbyn difrifoldeb y camymddwyn a'r camweinyddu, a'r risg o ganiatáu dilyniant dysgwr nad yw o bosibl wedi cwrdd â gofynion asesu;
- amserlenni dan sylw. Er enghraifft, wrth bennu'r amserlen ar gyfer yr ymchwiliad, gallai fod yn berthnasol ystyried a oes oes angen y cymhwyster ar gyfer mynediad i addysg uwch neu astudiaeth bellach arall, a'r amser y gallai fod ei angen i ystyried a chywiro unrhyw Effaithiau Andwyol, gan gynnwys y rhai ar dysgwyr eraill, megis amser ar gyfer ail-farcio a/neu gyhoeddi tystysgrifau;
- graddfa a chwmpas y camymddwyn a'r camweinyddu posibl. Er enghraifft, efallai yr hoffech ystyried goblygiadau ehangach yr ymddygiad ac unrhyw effaith bosibl ar gymwysterau eraill. Er enghraifft, os yw athro/athrawes yn gysylltiedig â'r camymddwyn neu'r camweinyddu, gallai hyn effeithio ar waith dysgwyr arall neu gymwysterau y mae'r athro wedi'u marcio.

4.6 Dylech hefyd ystyried goblygiadau cyfreithiol unrhyw gynnig gweithredoedd.

Hysbysu Cymwysterau Cymru

4.7 Yn unol ag Amod B3, rhaid i chi ein hysbysu ar unwaith pan fydd gennych achos i gredu bod camymddwyn neu gamweinyddu wedi digwydd neu'n debygol o ddigwydd a allai gael Effaith Andwyol. Amseriad hyn yw pan gredwch fod sail resymol dros amheuaeth o gamymddwyn neu gamweinyddu a allai gael Effaith Andwyol. Effaith Andwyol wedi digwydd neu y gallai ddigwydd. Yn unol ag Amod B3.6, rhaid i chi beidio ag aros nes bod y llun llawn gennych, neu fod unrhyw ymchwiliad wedi'i gwblhau, cyn ein hysbysu.

4.8 Mae Amod B3.2 (g) yn rhoi enghreifftiau penodol o ddigwyddiadau a allai gael Effaith Andwyol, megis ble rydych o'r farn y bu achos o gamymddwyn neu gamweinyddu a allai annilysu dyfarnu cymhwyster neu a allai effeithio ar gorff dyfarnu arall. Yn unol â hynny, pan fydd digwyddiad o gamymddwyn dan ddysgwr yn eich arwain at annilysu un neu fwy o ddyfarniadau, dylech ein hysbysu o hyn, ar y sail bod hwn yn ddigwyddiad y mae Amod B3.2 yn dweud y gallai, yn benodol, gael Effaith Niweidiol. Rydym yn awgrymu y dylech ein hysbysu o hyn ar yr adeg y gwnewch benderfyniad i annilysu'r dyfarniad(au), gan beidio ag aros i weld a yw'r ymgeisydd yn apelio cyn gwneud hynny.

4.9 Yn unol ag Amod B3.5, rhaid i chi hefyd ein hysbysu o unrhyw gamau rydych chi wedi'u cymryd neu'n bwriadu eu cymryd i atal, cywiro neu liniaru unrhyw Effaith Andwyol.

4.10 Rydym yn casglu gwybodaeth am gamymddwyn ddysgwyr nad yw'n annilysu dyfarniadau trwy'r ffurflen ddata flynyddol. Efallai y byddwn yn gofyn ichi roi gwybodaeth ychwanegol inni am ddigwyddiadau o'r fath yn dilyn y ffurflen ddata. Nid ydym yn disgwyl ichi ein hysbysu o unrhyw fater lle nad yw seiliau rhesymol wedi'u sefydlu, neu lle nad oes unrhyw effaith ar ddysgwyr sy'n ymgymryd â chymwysterau a gynigir yng Nghymru, gan gofio'r canllawiau a ddarperir ym mharagraff 4.4.

Ymchwiliadau

4.11 Ar adegau pan fyddwch wedi cadarnhau seiliau rhesymol dros amheuaeth neu honiad, mae Amod A8.2 (a) yn ei gwneud yn ofynnol i chi gadarnhau, cyn belled ag y bo modd, a oes achos o gamymddwyn neu gamweinyddu wedi digwydd. Ymchwiliad, fel arfer, fydd y ffordd i gadarnhau hyn.

4.12 O dan Amod A8.3(b), rhaid i chi sicrhau bod ymchwiliadau'n cael eu cynnal yn drylwyr ac yn effeithiol, gan rywun â chymhwysedd priodol, sydd heb fuddiant personol yng nghanlyniad yr ymchwiliad. Yn unol ag Amod A4, dylai ymchwilwyr hefyd fod yn rhydd o unrhyw fath arall o Wrthdaro Buddiannau a allai achosi Effaith Andwyol. Mae casglu tystiolaeth yn rhan o'r broses o gadarnhau a oes achos o gamymddwyn neu gamweinyddu wedi digwydd, ac felly mae'r ystyriaethau hyn yr un mor berthnasol i sut a chan bwy y cesglir tystiolaeth berthnasol.

4.13 Er mwyn bod yn drylwyr, byddem yn cynghori y dylai ymchwiliad fod yn drylwyr ac yn ofalus ac ystyried yr holl dystiolaeth berthnasol sydd ar gael, ac i fod yn effeithiol, dylai eich galluogi i ddod i gasgliad cywir, cyfiawn, teg ac amserol ynghylch a yw camymddwyn neu gamweinyddu wedi digwydd ai peidio. Byddai cael graddfa a chwmpas priodol o ymchwilio ym mhob achos, a sicrhau bod ymchwiliadau'n cael eu cynnal gan unigolion sydd â sgiliau a hyfforddiant priodol oll yn cynorthwyo i sicrhau bod gofynion Amod A8.3(b) yn cael eu bodloni.

4.14 Byddem yn cynghori y dylai safon y prawf ar gyfer gwneud penderfyniad fod ar sail cydbwysedd tebygolrwydd, hynny yw, ei bod yn fwy tebygol na pheidio bod camymddwyn a chamweinyddu wedi digwydd.

4.15 Ar ôl i'r ymchwiliad gael ei gwblhau a'ch bod wedi dod i gasgliad, hysbyswch unrhyw unigolion sydd wedi bod yn destun ymchwiliad i ganfyddiadau'r ymchwiliad, eich penderfyniadau canlyniadol, gan gynnwys unrhyw benderfyniadau i gymhwyso cosbau, a'r rhesymau drostynt. Byddem hefyd yn cynghori gan gynnwys gwybodaeth am y dystiolaeth y mae canfyddiadau'r

ymchwiliad a'ch penderfyniadau ynghylch cosb yn seiliedig arni, a sut a phryd y gellir apelio.

Gweithdrefn ysgrifenedig ar gyfer ymchwilio

4.16 Yn unol ag Amod A8.3(a), rhaid i chi sefydlu, cynnal a chydymffurfio â gweithdrefn ysgrifenedig gyfoes ar gyfer ymchwilio i gamymddwyn a chamweinyddu honedig neu'r amheuaeth.

4.17 Rhaid cynnal pob ymchwiliad yn unol â'ch gweithdrefn ysgrifenedig, gan gynnwys lle mae'r ymchwiliad yn cael ei gynnal ar eich rhan, er enghraifft, gan ganolfan. Mae'n bwysig eich bod yn cadw'ch gweithdrefnau'n gyfredol a'ch bod yn eu hadolygu yn dilyn canlyniad eich ymchwiliadau eich hun. Yn yr un modd, ystyriwch pa welliannau y dylech eu gwneud i'ch polisïau a'ch gweithdrefnau yn dilyn ymchwiliadau gan gyrff dyfarnu eraill y dewch yn ymwybodol ohonynt. Mae hefyd yn bwysig darparu hyfforddiant mewn perthynas â'r gweithdrefnau i'ch staff, canolfannau ac unrhyw bersonau eraill sy'n gysylltiedig â'ch sefydliad u credwch y byddai'n elwa o hyfforddiant fel trydydd partïon.

4.18 Gallai materion y dylech ystyried ymdrin â nhw yn eich gweithdrefn ysgrifenedig gynnwys, er enghraifft:

- Y staffio a'r adnoddau sydd eu hangen ar gyfer cynnal ymchwiliadau;
- Nodi camau ymchwiliad a phwy sy'n gyfrifol am ymgymryd â phob cam. Er enghraifft, cwmpasu'r ymchwiliad, casglu tystiolaeth, penderfynu a oes seiliau rhesymol yn bodoli a phenderfynu a oes achos o gamymddwyn a chamweinyddu wedi digwydd;
- Sefydlu cylch gorchwyl ar gyfer pob ymchwiliad;
- Y broses ar gyfer nodi a chasglu tystiolaeth a'i chadw'n ddiogel;
- Pan fydd sawl honiad, yna dylid ymchwilio iddynt yn llawn;
- Pryd a sut y bydd partïon â diddordeb yn cael gwybod am unrhyw faterion sy'n effeithio arnynt ac yn cael cyfle i wneud cyflwyniadau, yn unol ag egwyddorion cyfiawnder naturiol;
- Sut y cynhelir unrhyw gyfweliadau ac ymweliadau â chanolfannau;
- Sut y cynhelir cyfrinachedd;
- Y safon ofynnol o brawf;
- Sut y bydd canlyniad yr ymchwiliad yn cael ei gyflwyno a sut y gweithredir arno;
- Pa egwyddorion a ddilynir wrth gynnal ymchwiliadau ar y cyd;
- Pryd a sut i gynnwys awdurdodau eraill, gan gynnwys yr heddlu os amheuir gweithgaredd troseddol; a
- Sut mae'r weithdrefn yn croestorri â pholisïau perthnasol eraill, e.e. eich polisïau chwythu'r chwiban, ymddygiad gweithwyr neu gwynion rheoliadol.

Graddfa a chwmpas yr ymchwiliad

4.19 Fel rhan o gynllunio'ch ymchwiliad, byddwych yn nodi ei gwmpas a'i raddfa. Wrth wneud hynny, fe allech chi ystyried materion fel y canlynol:

- Natur yr achos a pha ddulliau ymchwilio sy'n addas i'r cyd-destun hwnnw. Er enghraifft, bydd eich ymchwiliad yn cael ei lunio gan a yw'n ymwneud â thoriad posib gan ganolfan, cyflenwr trydydd parti neu ddysgwr. Yn yr un modd, bydd yn cael ei siapio gan amgylchiadau'r toriad posib e.e a oedd yn gysylltiedig â chyfrinachedd yn y cam dylunio, twyllo mewn asesiadau, neu ffugio cofnodion yn y cam marcio neu ddyfarnu;
- Gall graddfa bosibl yr achos a faint o ganolfannau neu ddysgwyr a allai gael eu heffeithio hefyd lunio eich dulliau ymchwilio. Er enghraifft, gall nifer y dysgwyr dan sylw a'r graddau y gallant gael eu heffeithio effeithio ar yr amserlen ar yr amserlen ar gyfer yr ymchwiliad, a gall nifer y canolfannau dan sylw effeithio ar eich cynllunio, darparu adnoddau a dewis y rheini i'w cyfweld fel rhan o'ch ymchwiliad;
- I ba raddau y gall athrawon neu weithwyr proffesiynol eraill fod yn gysylltiedig, oherwydd gallai hyn olygu bod angen ystyried buddiant personol fel y trafodir isod;
- Y staff a'r adnoddau y bydd eu hangen i sicrhau bod yr ymchwiliad yn cael ei gynnal yn cydymffurfio (gweler isod).

Pwy ddylai gynnal ymchwiliad

4.20 Mae Amod A8.3(b) yn ei gwneud yn ofynnol i ymchwiliadau gael eu cynnal yn drylwyr ac yn effeithiol, gan bersonau o gymhwysedd priodol nad oes ganddynt fuddiant personol yn y canlyniad.

4.21 Wrth benderfynu a yw person yn gymwys i gynnal ymchwiliad o'r fath, ystyriwch faterion fel y sgiliau, y wybodaeth a'r profiad sy'n ofynnol, ac a ydynt wedi cwblhau hyfforddiant ar gynnal ymchwiliadau.

4.22 Dylech geisio cael mynediad at ymchwilwyr hyfforddedig sy'n gymwys i gynnal ymchwiliadau o'r math sy'n ofynnol, fel bod yr adnodd hwn ar gael pan fydd angen.

4.23 Yn dibynnu ar raddfa, cwmpas a chymhlethdod ymchwiliad a hyn yn oed lle mae gennych bobl gymwys ar waith, efallai y bydd angen i chi ystyried y gallu sydd ganddynt i gynnal yr ymchwiliad yn brydlon ac yn unol â'r amodau.

4.24 Pan fydd digwyddiad yn cynnwys canolfan, gallwch ofyn i ganolfan ymchwilio ar eich rhan, ond fe'ch cynghorir i ystyried yn gyntaf a yw'n briodol bod y

ganolfan gwblhau'r ymchwiliad. Efallai y bydd unigolion yn y ganolfan yn gysylltiedig â'r achos, neu gall cymhlethdod, graddfa neu gwmpas y mater olygu nad yw'n briodol nac yn ymarferol i'r ganolfan gynnal yr ymchwiliad. Os ydych o'r farn na all canolfan gynnal yr ymchwiliad ar eich rhan, bydd angen i chi gynnal yr ymchwiliad i sicrhau eich bod wedi cydymffurfio â'ch rhwymedigaeth i nodi camymddwyn a chamweinyddu ac i atal a lliniaru unrhyw Effeithiau Andwyol cysylltiedig.

4.25 Rhaid cymryd gofal arbennig er mwyn barnu a oes gan unigolyn o fewn canolfan fuddiant personol yng nghanlyniad yr ymchwiliad. Os felly, rhaid i chi sicrhau nad ydyn nhw'n ymwneud â chynnal unrhyw ran o'r ymchwiliad. Isod ceir rhai enghreifftiau o'r mathau o sefyllfaoedd lle gallai buddiant personol godi. Nid yw'r rhain yn rhagnodol nac yn gynhwysfawr, a gall sefyllfaoedd eraill godi hefyd:

- Mae'r person yn gysylltiedig â'r achos camymddwyn a chamweinyddu;
- Mae'r person yn perthyn i, neu mae ganddo berthynas bersonol agos neu gyfeillgarwch â pherson sy'n gysylltiedig â'r achos camymddwyn a chamweinyddu;
- Gallai canfyddiad anffafriol o ganlyniad i'r ymchwiliad arwain at oblygiadau ariannol neu broffesiynol uniongyrchol iddynt, er enghraifft, trwy roi eu swydd neu enw da proffesiynol mewn perygl; neu
- Yn achos uwch swyddogion/cyfarwyddwyr, perchnogion neu benaethiaid canolfannau, mae'r honiad neu'r amheuaeth yn codi problemau sefydliadol diwylliannol neu systematig sy'n berthnasol i'w hatebolrwydd proffesiynol, megis materion yn ymwneud ag ansawdd sicrhau ansawdd mewnol.

4.26 Os yw canolfan yn cynnal ymchwiliad ar eich rhan, rhaid ei gynnal yn unol â'ch gweithdrefn ysgrifenedig chi eich hun, ac rydych chi'n gyfrifol am gynnal gwiriadau priodol er mwyn cadarnhau bod eich gofynion gweithdrefnol wedi'u bodloni cyn gwneud canfyddiadau yn seiliedig ar y dystiolaeth a ddarparwyd.

Trefniadau canolfannau/trydydd parti ac arweiniad ar gyfer canolfannau

4.27 Mae'r Amodau'n ei gwneud yn glir mai cyrff dyfarnu sy'n gyfrifol am sicrhau bod camymddwyn a chamweinyddu mewn perthynas â'u cymwysterau yn cael eu hatal, gan gynnwys lle mae trydydd parti yn ymgymryd â datblygu, neu ddarparu cymwysterau ar eich rhan.

4.28 Mae Amod A8.4 yn ei gwneud yn ofynnol i chi adolygu'r trefniadau sydd ar waith gan ganolfannau sy'n cyflwyno'ch cymwysterau ar gyfer atal ac ymchwilio i gamymddwyn a chamweinyddu. Mae Amod C1 hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i chi sicrhau bod gennych drefniadau ar waith gydag

unrhyw drydydd parti sy'n ymwneud â datblygu, cyflwyno neu ddyfarnu eich cymwysterau, sy'n eich galluogi i gydymffurfio â'ch Amodau Cydnabod. Mae hyn yn cynnwys gyda chanolfannau, yn ogystal â gyda thrydydd parti arall fel negeswyr, darparwyr TG, darparwyr argraffu a darparwyr gwasanaeth post.

4.29 Mewn perthynas â chanllawiau ar gyfer canolfannau, mae Amod A8.5 yn ei gwneud yn ofynnol i chi ddarparu canllawiau penodol ar y ffordd orau i atal, ymchwilio a delio â chamymddwyn a chamweinyddu os bydd canolfan yn gofyn am arweiniad, a cheir gofyniad cyffredinol hefyd dan Amod C2.5 i ddarparu arweiniad effeithiol i ganolfannau ar gyflwyno eich cymwysterau.

5. Delio â Chamymddwyn a Chamweinyddu profedig

Cymryd camau yn erbyn y rhai sy'n gyfrifol

5.1 Yn dilyn eich ymchwiliad, os gwelwch fod camymddwyn neu gamweinyddu wedi digwydd, mae Amod A8.6(b) yn ei gwneud yn ofynnol i chi gymryd camau yn erbyn y rhai sy'n gyfrifol, neu geisio cydweithrediad trydydd parti er mwyn gwneud hynny.

5.2 Gellir rhoi sancsiynau yn erbyn dysgwyr, staff canolfannau a chanolfannau, yn ogystal â'ch staff chi eich hun. Rhaid i'r camau a gymerwch fod yn gymesur â'r camymddwyn neu'r camweinyddu, yn yr achos penodol. Efallai y bydd angen i chi hefyd geisio cydweithrediad canolfannau er mwyn cymryd camau yn erbyn staff a gyflogir gan y ganolfan.

5.3 Efallai y bydd yn berthnasol ystyried effeithiau canlyniadol unrhyw sancsiwn arfaethedig, yn achos unigolion sy'n gysylltiedig â'r camymddwyn a'r camweinyddu ac unrhyw un arall yr effeithir arno, a chydbwyso'r rhain yn erbyn difrifoldeb y camymddwyn a'r camweinyddu. Mae angen sicrhau cydbwysedd rhwng gosod cosbau tebyg i achosion tebyg, ond ar yr un pryd sicrhau bod sancsiynau'n ystyried unrhyw ffactorau lliniarol neu waethygol penodol a'u bod yn deg ym mhob un o'r amgylchiadau penodol.

5.4 O dan Amod H6.3(b), lle mae canlyniad yn anghywir, rhaid i chi ystyried a ddylid ei gywiro, ac o dan Amod I4.2(c), rhaid i chi gymryd pob cam rhesymol i ddirymu tystysgrif sy'n cynnwys canlyniad ffug oherwydd camymddwyn neu gamweinyddu. Dylech ystyried sut y byddwch yn rhoi gwybod i unrhyw ddysgwyr yr effeithir arnynt am drefniadau ar gyfer ailasesu a/neu ardystiad, a'u hawl i apelio.

Hysbysu trydydd parti

5.5 O dan Amod A8.7, mae'n ofynnol i chi hysbysu canolfannau sy'n cyflwyno'ch cymwysterau, a chyrff dyfarnu eraill, os profwyd camymddwyn a chamweinyddu a gallai effeithio arnynt. Yn dibynnu ar yr amgylchiadau, efallai y bydd angen i chi hysbysu cyrff perthnasol hefyd, gan gynnwys rheoleiddwyr eraill fel Cyngor y Gweithlu Addysg, yr heddlu, cyrff gorfodaeth cyfraith eraill, a/neu gyrff cyllido. Eich cyfrifoldeb chi yw nodi pa gyrff dyfarnu eraill allai gael eu heffeithio, er enghraifft yn rhinwedd dyfarnu neu gyflwyno'r un cymwysterau neu gymwysterau tebyg, neu gyflogi'r un unigolyn. Os ydych yn ansicr ynghylch hysbysu canolfannau, cyrff dyfarnu neu gyrff eraill mewn achos penodol, mae croeso i chi drafod hyn gyda ni.

5.6 Wrth hysbysu canolfan neu gorff dyfarnu am ddigwyddiad o gamymddwyn a chamweinyddu a brofwyd ar ôl cwblhau ymchwiliad, ystyriwch beth a phryd y byddwch yn darparu'r wybodaeth honno fel y gallant weithredu'n brydlon ac yn briodol.

5.7 Cofiwch sicrhau eich bod yn cydymffurfio â deddfau diogelu data. I gael mwy o wybodaeth am brosesu gwybodaeth bersonol, gweler y canllawiau sydd ar gael o Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth yn ico.org.uk.

5.8 Mewn achos ble rydych wedi cadarnhau bod athro/athrawes wedi camymddwyn a chamweinyddu, dylech ystyried a fyddai'n briodol hysbysu eu rheolydd proffesiynol. Cyngor y Gweithlu Addysg (*EWC*) yw rheolydd y proffesiwn addysgu yng Nghymru ac mae'n dal tribiwnlysoedd ar gamymddwyn. Wrth ystyried a yw'n briodol hysbysu, cyfeiriwch at ganllaw'r rheolydd, sydd, yn achos Cyngor y Gweithlu Addysg, ar gael yn ewc.wales. Efallai yr hoffech chi ystyried difrifoldeb yr achos hefyd, yn seiliedig ar ganfyddiadau eich ymchwiliad a lefel y sancsiwn rydych chi wedi'i osod. Os oes gennych dystiolaeth bod canolfan, lle mae'r athro/athrawes yn gyflogedig, eisoes wedi hysbysu'r rheolydd, yna nid oes angen i chi ei hysbysu hefyd.

5.9 Pan brofir canylniad eich ymchwiliad camymddwyn a chamweinyddu a bod gweithgaredd anghyfreithlon o bosibl yn gysylltiedig, dylech riportio pryderon i'r heddlu a/neu unrhyw gyrff gorfodaeth cyfraith perthnasol eraill.

Atal ailddigwyddiad

5.10 Lle gwelwyd bod camymddwyn a chamweinyddu wedi digwydd, mae Amod A8.6 yn ei gwneud yn ofynnol i chi roi mesurau ar waith i'w atal rhag digwydd eto. Dylai hon fod yn broses gylchol, lle byddwch yn defnyddio'r digwyddiad i lywio'r broses o nodi risgiau yn y dyfodol.

5.11 Dylech hefyd ddefnyddio gwybodaeth ynghylch achosion o gamymddwyn a chamweinyddu i'w bwydo i fesurau newydd er mwyn lleihau'r risg y bydd yn digwydd eto, fel sy'n ofynnol gan Amodau A6 a D3. Mae Amod A6 yn ei gwneud yn ofynnol i chi nodi'r risg o unrhyw achosion allai gael Effaith Andwyol, a chymryd pob cam rhesymol i'w hatal. Yn unol ag Amod D3.3, lle mae achos wedi cael Effaith Andwyol, rhaid i chi hefyd adolygu, ac os yw'n briodol, adolygu'ch ymagwedd at ddatblygu, cyflwyno a dyfarnu cymwysterau. Dylech hefyd ddefnyddio gwybodaeth am digwyddiadau penodol i fwydo i'ch strategaeth Craffu ar Safonau Asesu Canolfannau (CSAC) lle rydych chi'n nodi'ch dulliau yn seiliedig ar asesiadau risg ar gyfer goruchwylio canolfannau.

5.12 Pan welwch nad oes achos o gamymddwyn neu gamweinyddu wedi digwydd, mae'n ddefnyddiol gweithredu prosesau rheoli ansawdd mewnol er mwyn adolygu'r penderfyniadau hyn, gan eu bod yn annhebygol o gael eu profi na'u herio ymhellach trwy'r system apelio. Gellir defnyddio gwybodaeth am achosion sydd heb eu profi hefyd i adolygu'n gyffredinol eich dull o ddatblygu, cyflwyno a dyfarnu cymwysterau yn unol ag Amod D3.1, ac i fwydo i'ch strategaeth CSAC.

5.13 Enghreifftiau o gamau y gallech eu hystyried er mwyn atal camymddwyn a chamweinyddu rhag digwydd eto gynnwys, ond ni fyddent yn gyfyngedig i:

- Gweithredu mesurau diogelwch a gwiriadau newydd;
- Cynnal sesiynau adborth rheolaidd gyda'ch timau datblygu neu gyflwyno er mwyn ystyried sut y gellid gwella cynllun, datblygiad neu ddyfarniad cymwysterau i atal achosion tebyg yn y dyfodol;
- Rhoi arweiniad a/neu gyngor perthnasol i ganolfannau;
- Adolygu trefniadau'r ganolfan;
- Adolygu eich gweithdrefn bersonol ar gyfer delio â chamymddwyn a chamweinyddu;
- Ymgymryd â phroses dadansoddi risg newydd; a
- Diweddaru'ch cynllun wrth gefn.

6. Apeliadau

6.1 Mae Amod I1.1 yn ei gwneud yn ofynnol i chi sefydlu, cynnal a chydymffurfio â phroses apelio mewn perthynas ag achosion o gamymddwyn neu gamweinyddu.

6.2 Yn unol ag Amod I1.2, rhaid i bob penderfyniad apêl gael ei wneud gan unigolyn sydd heb unrhyw fuddiant personol yn y penderfyniad sy'n cael ei apelio, ac sydd â chymhwysedd priodol. At hyn, rhaid i'r penderfyniad terfynol

mewn perthynas â'r apêl gynnwys o leiaf un penderfynwr nad yw'n gyflogai i chi, yn asesydd sy'n gweithio i chi, neu sydd fel arall yn gysylltiedig â chi. I gael mwy o wybodaeth am fuddiant personol, gweler adran 4. Am ragor o wybodaeth am gymhwysedd priodol ar gyfer penderfyniadau apelio, a phwy allai fod yn rhan o'r penderfyniad terfynol, gweler ein canllawiau atodol mewn perthynas â Gwrthdaro buddiannau.

6.3 Rydym yn cynghori ar unwaith i hysbysu'n unrhyw un yr ymchwiliwyd iddo o ganlyniadau ymchwiliad camymddwyn neu gamweinyddu ac am unrhyw sancsiynau i'w cymryd yn eu herbyn, ynghyd â'r rhesymu ategol, a sut a phryd y dylid apelio.

7. Cadw cofnodion

7.1 Mae Amod A5.2 yn ei gwneud yn ofynnol i chi gadw data er mwyn sicrhau bod gwybodaeth ddigonol ar gael. Dylid cadw tystiolaeth sy'n berthnasol i ganfyddiad o gamymddwyn a chamweinyddu am gyfnod digonol o amser er mwyn cefnogi gweithdrefn apelio ystyrlon a chadarn.

7.2 Yn unol â'r gofyniad, rydym yn cynghori cadw cofnod o'r holl amheuon a honiadau o gamymddwyn a chamweinyddu, p'un ai a ydynt wedi'u profi ai peidio, a chofnodion o'ch ymchwiliadau i bob achos o gamymddwyn a chamweinyddu a'u canlyniadau. Bydd y wybodaeth hon yn eich galluogi i nodi patrymau a gallai lywio diwygiadau i'ch dadansoddiad risg, eich gweithdrefn ysgrifenedig ar gyfer ymchwiliadau i achosion o gamymddwyn a chamweinyddu, a'ch ymagwedd tuag at ddatblygu, cyflwyno a dyfarnu cymwysterau.

Atodiad 1 - Amod A8 a diffiniad o ‘Effaith Andwyol’

Amodau Cydnabod Safonol

Amod A8 - Camymddwyn a chamweinyddu

Atal achosion o gamymddwyn a chamweinyddu

A8.1 Rhaid i gorff dyfarnu gymryd pob cam rhesymol i atal unrhyw achosion o gamymddwyn neu gamweinyddu wrth ddatblygu, cyflenwi a dyfarnu cymwysterau y mae'n eu darparu neu y mae'n bwriadu eu darparu.

Ymchwilio i achosion o gamymddwyn a chamweinyddu a rheoli eu heffaith

A8.2 Os bydd corff dyfarnu yn amau, neu os bydd unrhyw berson arall yn honni, fod unrhyw gyfryw achos o gamymddwyn neu gamweinyddu wedi digwydd, a bod sail resymol dros yr amheuaeth honno neu'r honiad hwnnw, rhaid i'r corff dyfarnu wneud y canlynol –

(a) hyd y gellir, cadarnhau p'un a yw'r achos o gamymddwyn neu gamweinyddu wedi digwydd; a
(b) cymryd pob cam rhesymol ar unwaith i atal unrhyw Effaith Andwyol y gallai'r achos o gamymddwyn neu gamweinyddu ei chael ac, os bydd yn cael unrhyw gyfryw Effaith Andwyol, ei lleihau hyd y gellir a'i hunioni.

Gweithdrefnau sy'n ymwneud â chamymddwyn a chamweinyddu

A8.3 At ddibenion yr Amod hwn, rhaid i gorff dyfarnu wneud y canlynol -

(a) sefydlu a chynnal gweithdrefnau ysgrifenedig cyfredol ar gyfer ymchwilio i achosion a amheuir neu a honnir o gamymddwyn neu gamweinyddu, a chydymffurfio â hwy bob amser; a
(b) sicrhau y caiff y cyfryw ymchwiliadau eu cynnal yn drylwyr ac yn effeithiol gan bersonau cymwys nad oes ganddynt unrhyw fuddiant personol yn eu canlyniad.

A8.4 Os bydd Canolfan yn cyflawni unrhyw ran o'r broses o gyflenwi cymhwyster a ddarperir gan gorff dyfarnu, rhaid i'r corff dyfarnu gymryd pob cam rhesymol i adolygu'r trefniadau a roddwyd ar waith gan y Ganolfan honno ar gyfer atal achosion o gamymddwyn a chamweinyddu ac ymchwilio iddynt, yn barhaus.

A8.5 Ar ôl cael cais gan y cyfryw Canolfan, rhaid i gorff dyfarnu roi canllawiau i'r Ganolfan ar sut i atal achosion o gamymddwyn a chamweinyddu, ymchwilio iddynt ac ymdrin â hwy.

Ymdrin ag achosion o gamymddwyn a chamweinyddu

A8.6 Os bydd corff dyfarnu yn cadarnhau bod unrhyw achos o gamymddwyn neu gamweinyddu wedi digwydd wrth ddatblygu, cyflenwi neu ddyfarnu cymwysterau y mae'n eu darparu, neu'n bwriadu eu darparu, rhaid iddo gymryd pob cam rhesymol ar unwaith i wneud y canlynol:

(a) atal yr achos hwnnw o gamymddwyn neu gamweinyddu rhag digwydd eto; a
(b) cymryd camau yn erbyn y rhai sy'n gyfrifol sy'n gymesur â difrifoldeb a chwmpas y digwyddiad neu geisio cydweithrediad trydydd partïon i gymryd y cyfryw gamau.

A8.7 Os bydd gan gorff dyfarnu le i gredu y gallai achos o gamymddwyn neu gamweinyddu sydd wedi digwydd, neu unrhyw ddigwyddiad cysylltiedig:

(a) effeithio ar Ganolfan sy'n cyflawni unrhyw ran o'r broses o gyflenwi cymhwyster a ddarperir gan gorff dyfarnu, rhaid iddo roi gwybod i'r Ganolfan honno;
(b) effeithio ar gorff dyfarnu arall, rhaid iddo roi gwybod i'r corff dyfarnu hwnnw.

Amod J1 - Dehongli a diffiniadau

J1.8 **Effaith Andwyol** Mae gweithred, anwaith, digwyddiad neu amgylchiad yn cael effaith andwyol os yw'n:

(a) achosi niwed i Ddysgwyr neu ddarpar Ddysgwyr;
Neu
(b) cael effaith andwyol ar y canlynol:
  (i) gallu'r corff dyfarnu i ddatblygu, cyflenwi neu ddyfarnu cymwysterau mewn ffordd sy'n cydymffurfio â'i Amodau Cydnabod;
  (ii) safonau cymwysterau y mae'r corff dyfarnu yn eu darparu neu'n bwriadu eu darparu; neu
  (iii) hyder y cyhoedd mewn cymwysterau a/neu system gymwysterau Cymru.

Atodiad 2 - Diagram llif camymddwyn a chamweinyddu

Mae'r diagram hwn yn darparu crynodeb gweledol o Amod A8, ond dylid ei darllen ar y cyd â'r canllawiau manwl uchod.